

EVANS, THOMAS ('Telynog '; 1840 - 1865), bardd

Enw: Thomas Evans
Ffugenw: Telynog
Dyddiad geni: 1840
Dyddiad marw: 1865
Rhiant: Thomas Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Walter Thomas Morgan

Ganwyd 8 Medi 1840 yn nhref Aberteifi, mab Thomas Evans, saer llongau o'r dref honno. Pan oedd yn 11 oed aeth i weithio ar long a hwyliai rhwng porthladdoedd Cymru. Ond nid oedd y bywyd hwn wrth ei fodd; dihangodd i Aberdâr a gweithiodd fel glowr yng Nghwmbach. Dechreuodd farddoni pan oedd yn ieuanc iawn a chafodd ei wobwr gyntaf am bryddest ar ' Gostyngeddwydd ' mewn eisteddfod a gynhaliwyd dan nawdd capel y Bedyddwyr yng Nghwmbach, lle yr oedd yn aelod. Cyfansoddai yn rhwydd yn y mesurau rhyddion a chaethion, a bu'n fuddugol mewn eisteddfodau lleol o dan feirniadaeth beirdd o fri fel '[Islwyn](#)' a '[Cynddelw](#).' Pan fu farw o'r darfodedigaeth, ac yntau ond 25 oed, cyfrifid ef yn un o feirdd mwyaf addawol Cymru. Ei weithiau enwocaf yw'r telynegion ' Blodeuyn bach wyf fi mewn gardd ' ac ' Yr Haf '; y mae'r ddiwethaf wedi ei chynnwys gan [W. J. Gruffydd](#) yn ei *Flodeugerdd*. Bu farw 29 Ebrill 1865 a chladdwyd ef ym mynwent gyhoeddus Aberdâr. Cyhoeddwyd yn 1866 gyfrol o'i weithiau wedi eu dethol gan ei gyfaill '[Dafydd Morganwg](#)' gyda chofiant gan Howel Williams.

Awdur

Walter Thomas Morgan, (1912 - 1990)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

